## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Ymateb i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel

| | Argymhelliad | Ymateb | Dyddiad cyflawni | Swyddog arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cefnogi'r Prif Weithredwr newydd i ddatblygu gweledigaeth ysbrydoledig, strategaeth drawsnewid, strategaethau corfforaethol sylfaenol a'r newid diwylliannol sy'n ofynnol i gynhyrchu cynaliadwyedd gwasanaethau, mwy o weithio ac arloesi ar draws y Cyngor – sy'n cynnwys staff, cymunedau a phartneriaid. | <u>Derbyn</u><br>Mae'r Cyngor wedi gosod amserlen ac yn datblygu dull o ddatblygu cyfres o ddogfennau cysylltiedig gan gynnwys: | | |
| | | • Cyllideb ar gyfer 2026/27 | Chwef 26 | CL |
| | | • Cynllun trawsnewid ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr 2040 | Tach 26 | JM |
| | | • Cynllun Corfforaethol newydd a Chynllun Cyflawni Cynllun Corfforaethol (CCCC) wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2027/28 sy'n nodi'r mesurau llwyddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod – gan adlewyrchu'r weledigaeth newydd. | Mai 27 | AR |
| | | • Hunanwerthusiadau Gwasanaeth mwy cadarn sy'n bwydo i mewn i'r CCCC ar gyfer 2026/27 a Chynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth sy'n amlinellu sut y bydd pob Cyfarwyddiaeth yn cyfrannu at y y CCCC. | Mawrth 26<br>Gorffennaf 26 | TRhC<br>AR/TRhC |
| | | • Bydd Cynlluniau Busnes 3 blynedd y Gyfarwyddiaeth yn cael eu datblygu ar gyfer 2027-28, gan gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a'r cynllun trawsnewid newydd. | Gorffennaf 27 | AR/TRhC |
| | | • Arfarniadau sy'n nodi sut bydd gweithwyr unigol yn cyfrannu at y cynlluniau a nodir uchod. | Gorffennaf 26 | TRhC |
| | | • Datblygu strategaethau galluogi allweddol e.e. gweithlu a Thechnoleg | Ion 27 | TRhC |
| | | Cytunwyd ar welliannau i strwythur uwch reolwyr y Cydbwyllgor Trafod gan y Cyngor llawn ym mis Tachwedd | | JM |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2025 i gefnogi newid, sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol i alluogi newid. Mae ymgynghoriadau i gefnogi'r newid wedi'u cwblhau, mae 4 apwyntiad wedi'u gwneud, 2 eisoes yn y swydd a 2 arall yn cyrraedd ym mis Mehefin a Gorffennaf eleni. | Ion - Mai 26 | |
| 2 | Rhoi datblygiad arweinyddiaeth ar waith ar gyfer uwch staff ac Aelodau i gefnogi'r newid hwn. | <u>Derbyn</u><br>Mae rhaglen datblygu arweinyddiaeth dwy flynedd a hyfforddiant uwch i aelodau yn cael ei ddatblygu gyda chyllid cysylltiedig o'n cronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer trawsnewid. Bydd hyn yn cael ei gynorthwyo gan Bennaeth Perfformiad a Newid Diwylliannol y Gweithlu newydd sy'n cyrraedd ei swydd ym mis Mehefin 2026. | Gorff 26- Rhag 26 | PM/SF |
| 3 | Cynyddu awydd y Cyngor am arloesi gyda ffocws ar y dyfodol a chyflawni canlyniadau; cefnogi staff ac Aelodau i wneud hynny. Dylai hyn gynnwys lleihau biwrocratiaeth ddiangen i ryddhau capasiti a grymuso rheolwyr. | <u>Derbyn</u><br>Bydd Strategaeth y Gweithlu yn cael ei datblygu yn 2026 sy'n nodi'r ymddygiad a'r nodweddion yr ydym eu heisiau yn ein gweithlu.<br>Bydd yna hefyd raglen ddatblygu sy'n gwneud penderfyniadau ac ail-beiriannu prosesau busnes yn rhan o'n busnes craidd. Bydd hyn yn cyflymu gwneud penderfyniadau ac yn galluogi prosesau i fod yn fwy effeithlon, lleihau biwrocratiaeth ddiangen a chyflawni arbedion.<br>Mae gwaith ar y gweill i nodi'r gallu a'r sgiliau sydd gennym ac sydd eu hangen arnom i gyflwyno rhaglen wella effeithiol. Bydd tîm trawsnewid corfforaethol yn cael ei sefydlu at y diben hwn sy'n sicrhau moderneiddio, dan arweiniad Pennaeth Trawsnewid a Digidol newydd sy'n cyrraedd ym mis Gorffennaf 2026. Mae buddsoddiad yn y gwasanaeth hwn yn cael ei ddyrannu ac mae'r broses o greu'r strwythur ar y gweill. | Rhag 26<br>2026-27 (parhaus)<br>Gorff - Rhag 26 | PM/SF<br>CL<br>CL/DT |
| 4 | Adolygu gallu corfforaethol a strategol yn gyflym i sicrhau cynaliadwyedd darparu | <u>Derbyn a chwblhau</u> | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gwasanaethau a chefnogi'r rhaglen newid sy'n dod i'r amlwg yn gyffredinol. Ystyried dod â galluogwyr corfforaethol allweddol at ei gilydd i ryddhau potensial y sefydliad: e.e. Adnoddau Dynol, perfformiad a chyfathrebu. | Cytunwyd ar strwythur newydd y Cyngor gan y Cyngor llawn ar 19 Tachwedd 2025. Mae newidiadau, ymgynghoriadau a recriwtio ar y gweill a byddant yn parhau trwy 2026. | Ebrill 26 | JM |
| 5 | Adolygu ac adnewyddu'r dull o ran digidol a data i gefnogi'r Cynllun Trawsnewid sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys:<br>Cyllid, Systemau, Sgiliau a Diwylliant | <u>Derbyn</u><br>Mae adolygiad ffurfiol ar y gweill i arfarnu capasiti a sgiliau presennol a darparu argymhellion ar gyfer newid i sicrhau bod y gwasanaeth yn addas at y diben i weithredu fel galluogwr newid a moderneiddio ar draws y cyngor.<br>Rydyn ni'n sylweddol y tu ôl i ble mae angen i ni fod mewn perthynas â chymhwyso deallusrwydd artiffisial. Mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Corfforaethol, wedi'i sefydlu yn y Cyngor i edrych ar ddeallusrwydd artiffisial a rhagwelir y bydd rhai cynlluniau peilot yn cael eu nodi i sicrhau bod rhai meysydd hanfodol yn cael eu datblygu lle mae'r model wedi ei brofi mewn mannau eraill.<br>Bydd y dull hwn yn llywio strategaeth ddigidol, llywodraethu ac unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen. Mae buddsoddiad wedi'i nodi yn yr SATC | Chwef 26<br>Mai 26<br>Ebrill 26 | CL<br>LH<br>CL |
| 6 | Ystyried ymagwedd y Cyngor cyfan tuag at hyrwyddo gwaith y Cyngor a sir Pen-y-bont ar Ogwr – gyda balchder. | <u>Derbyn</u><br>Mae gwaith ar y gweill i benderfynu sut rydym yn dathlu llwyddiant yn fewnol, ac mae canfyddiadau cychwynnol ac enillion cyflym wedi'u nodi.<br>Mae strwythur newydd ar gyfer y tîm cyfathrebu wedi'i sefydlu a chyfathrebu newydd gyda phreswylwyr am yr hyn rydym yn ei wneud – yn enwedig mewn perthynas â mannau cyhoeddus.<br>Bydd Pennaeth Gwasanaeth newydd sy'n cyrraedd ym mis Mehefin 2026 yn cyflwyno safbwynt newydd yn y maes hwn | Meh 26<br>Ion 26 | TRhC<br>AR |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Ystyried datblygu'r berthynas dda gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol i helpu i gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau Pen-y-bont ar Ogwr. | Derbyn<br>Mae hyn yn drawsbynciol ar draws pob maes a bydd ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau i ddechrau wrth ddatblygu ein strategaeth drawsnewid yn hanfodol. | Medi 26 | TRhC |
| 8 | Fel blaenoriaeth uniongyrchol, dylai'r Cyngor wella ei ymateboldeb i Aelodau, rhanddeiliaid a dinasyddion fel rhan o greu diwylliant o barch ar y ddwy ochr i bawb. | Derbyn<br>Bydd trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i sefydlu safonau ac amserlenni cyfathrebu clir ac i sicrhau lle nad yw materion yn hawdd eu datrys bod gwelliannau'n caekl eu gwneud yn brydlon a bod ymgysylltu ag aelodau. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith<br>Mae adolygiad ar y gweill, ac rydym yn sefydlu grŵp cyfeirio o 6 aelod etholedig i ystyried cynnydd a gweithio gyda gwasanaethau i weithredu unrhyw ail-ddylunio yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol. | Hyd 26 | POB/DT |

| **Rhestr Termau** | |
|---|---|
| AR | Rheolwr Grŵp – Cyfathrebu, Materion Cyhoeddus a Pholisi |
| CL | Cyfarwyddwr Corfforaethol –Cyllid a Thrawsnewid |
| TRhC | Tîm Rheoli Corfforaethol |
| DT | Pennaeth Trawsnewid a Digidol |
| JM | Prif Weithredwr |
| LH | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| SATC | Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| PM | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol |
| POB | Rheolwr Grŵp - Trawsnewid, Cymorth Busnes a Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| SF | Pennaeth Perfformiad a Newid Diwylliannol y Gweithlu |